

WATKIN-JONES, ELIZABETH (1887 - 1966), awdur llyfrau i blant

Enw: Elizabeth Watkin-jones
Dyddiad geni: 1887
Dyddiad marw: 1966
Priod: John Watkin-Jones
Rhiant: Jane Parry
Rhiant: Henry Parry
Rhyw: Benyw
Galwedigaeth: awdur llyfrau i blant
Maes gweithgaredd: Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Bedwyr Lewis Jones

Ganwyd 13 Gorffennaf 1887 yn Nefyn, Sir Gaernarfon, yn unig ferch Henry a Jane Parry. Capten llong oedd ei thad a bu foddï yn Ne America cyn i'w ferch ei weld. Cafodd ei haddysg yn ysgol Nefyn, ysgol sirol Pwllheli ac yn y Coleg Normal, Bangor, a bu'n athrawes plant bach yn Aberdâr, Onllwyn, Porthmadog, Trefriw, a Nefyn. Priododd â John Watkin-Jones yn Chwefror 1916. Ar ôl Rhyfel Byd I bu'n byw am gyfnod byr yn Merthyr cyn dychwelyd i Nefyn yn 1920 pan benodwyd ei g r yn brifathro yno.

Dechreuodd ysgrifennu storïau yn Saesneg i gylchgronau plant fel *Chuck's Own*, *Bubbles*, a *Fairyland Tales*, cyn troi i ysgrifennu yn Gymraeg. Rhwng 1939 ac 1949 enillodd amryw byd o wobrau yn yr Eisteddfod Genedlaethol am nofelau a straeon a dramâu byrion i blant; cyfrannodd lawer i *Tywysydd y plant*, *Trysorfa'r plant*, *Y Winllan*, *Cymru'r plant*, *Yr Athro*, ac yn arbennig i'r comic *Hwy!*; lluniodd hylltod o sgriptiau ar gyfer rhaglenni plant y B.B.C., a dramâu byrion ar gyfer plant capel Soar (A.), Nefyn. Heblaw *Pwt a Moi* (1953), *Onesimus* (1947) a thri llyfryn arall o ddramâu byrion a gyhoeddwyd yn 1947, cyhoeddodd saith nofel neu stori hanesyddol ar gyfer plant - *Plant y mynachdy* (1939), ei ffefryn hi ei hun, *Luned bengoch* (1946), *Y cwllwm cêl* (1947), *Y Dryslwyn* (1947), *Esyllt* (1951), *Lois* (1955), a 'Lowri ' yn *Storïau ias a chyffro* (1951). Mae pob un o'r rhain, ac eithrio *Y Dryslwyn*, wedi ei lleoli yn ardal Nefyn, ac yn sicrhau i'r awdur ei lle ymhlith prif awduron llyfrau i blant yn Gymraeg.

Bu farw ar 9 Mehefin 1966 a llosgwyd ei chorff yn amlogfa Bae Colwyn, lle mae ei llwch.

Awdur

Bedwyr Lewis Jones, (1933 - 1992)

Ffynonellau

Yr Herald Cymraeg a'r Genedl, 13 Mehefin 1966

Wenna Davies Hughes yn *Athro Arfon*, rhif 3, Rhagfyr 1969, 30-2

gwybodaeth gan H. J. Jones, Llangybi

Mairwen a Gwynn Jones, *Dewiniaid Difyr* (Llandysul 1983)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Elizabeth Watkin-Jones](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [40959958](#)

Wikidata: [Q5363690](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

